

Gorolwg o'r cynnig i gwsmeriaid

Mae gwasanaethu cwsmeriaid yn greiddiol i'n diwylliant yn Severn Trent. Gwelwn hyn fel conglfaen ein busnes a byddwn yn amcanu i adeiladu ar gryfderau a phrofiad y ddau fusnes.

Parhawn i gredu y byddai caffael Dyffryn Dyfrdwy gan Severn Trent yn ganlyniad llwyddiannus iawn i gwsmeriaid Dyffryn Dyfrdwy, ac yn ein cynnig dywedasom:

- Byddwn yn anelu at adeiladu ar y record gwasanaeth cwsmeriaid a gyflawnwyd gan Dyffryn Dyfrdwy ac fe fyddwn yn:
 - Ehangu cefnogaeth i gwsmeriaid bregus trwy ddarparu gostyngiadau i'r rhai sydd angen help i dalu eu biliau. Gall rhai cwsmeriaid dderbyn hyd at 90% o ostyngiad yn eu biliau dŵr.
 - Cychwyn cymorth cwsmeriaid 24/7 er mwyn i bobl allu cysylltu â ni ar unrhyw adeg, ddydd a nos trwy nifer o sianelau gan gynnwys cyfryngau cymdeithasol, sgwrsio gwe, galwadau ac ebost.
 - Ehangu ein athroniaeth ddigidol trwy roi offer a hyfforddiant i'r tîlmau blaen y maes er mwyn iddyn nhw allu defnyddio technoleg newydd i wella amserau ymateb gweithredol i gwsmeriaid.
- Rydym yn gwasanaethu rhan helaeth o Ganolbarth Cymru a Lloegr ac ymfalchiwn yn y teimlad lleol agos atoch sydd yn ein busnes. Gwasanaethu cymunedau yw craidd ein busnes a byddai hynny yn cael ei drosglwyddo i gymunedau Dyffryn Dyfrdwy.
- Credwn y byddai'r ddau fusnes yn elwa o fod yn rhan o fusnes mwy. Byddwn yn rhannu hanner unrhyw arbedion costau cyfanwerthu gyda chwsmeriaid, a bydd hyn yn cael ei adlewyrchu ym miliau y dyfodol.
- Mae gan y ddau gwmni hanes cryf o gynnal biliau isel i'w cwsmeriaid. Ar hyn o bryd mae gan Dyffryn Dyfrdwy y biliau dŵr yn unig isaf a Severn Trent sydd â chyfartaledd isaf biliau sy'n cyfuno dwr a dŵr gwastraff ym Mhrydain oll.
- Bwriedwn amddiffyn etifeddiaeth leol busnes Dyffryn Dyfrdwy. Bwriadwn ei gynnal, o dan drwydded gymreig ar wahân, o'r lleoliadau yn Wrecsam a Chaer. Unwaith y cwblhewn y caffaeliad, ein bwriad yw symud holl gwsmeriaid Severn Trent yng Nghymru i fod o dan drwydded Dyffryn Dyfrdwy. Felly bydd ein holl gwsmeriaid yng Nghymru yn cael eu gwasanaethu dan drwydded Gymreig.

Cyfrifoldeb

Mae Cyfarwyddwyr Severn Trent, a enwir ym mharagraff 2.3 rhan 11 o'r ddogfen gaffael dyddiedig 2 Rhagfyr 2016, yn derbyn cyfrifoldeb am y wybodaeth a gynhwysir yn y daflen hon. Hyd orau eu gwybodaeth a'u crêd tystia Cyfarwyddwyr Severn Trent (sydd wedi cymryd pob gofal rhesymol i sicrhau taw felly y mae hi) bod y wybodaeth a gynhwysir yn y daflen hon, y maent wedi derbyn cyfrifoldeb amdani, yn unol â'r ffeithiau ac nid yw'n hepgor unrhywbeth allai effeithio ar bwys y cyfryw wybodaeth.

Rhai o'n gwobrau



Cyflogwr y Flwyddyn, Peirianeg a Chynhyrchu – Gwobrau Prentisiaid Asiaidd 2016



Cyfleustod y Flwyddyn 2016 – Ffederasiwn Adeiladu Cartrefi Lloegr a Chymru 2016



Prosiect Data y Flwyddyn – Gwobrau Cyflawni y Diwydiant Dŵr 2016



Dyfarnwyd Statws FTSE4Good yn 2016



Gwobr yr Amgylchedd – Utility Week Gwobrau 2015 (mae gwobrau 2016 ar 12/12)



Cyflogwr Macro y Flwyddyn yng Ngortllewin Canolbarth Lloegr – Gwobrau Prentisiaid Cenedlaethol 2016



Y tim Cymorth Gorau ar gyfer Cwsmeriaid Bregus – Cynhadledd Cyfleustodau a Thelegyfathrebu 2016



Peiriannydd proffesiynol y Flwyddyn 2016



Gwobr Arwr y Fforwm – Gwobrau Arloesi mewn Cyswllt Cwsmeriaid 2016



Apprentice Of The Year Awards 2016

Prentis y Flwyddyn yn Coventry a Swydd Warwick 2016

Nodyn pwysig

Nid yw'r daflen hon yn dalfyriad o'r ddogfen gaffael, a ddyddiwyd 2 Rhagfyr 2016, y mae'n bethynasol iddi ac ni ddylid ystyried ei bod yn cymryd lle darllen y ddogfen gaffael honno yn llawn. I'r graddau bod unrhyw wrthdaro rhwng geiriad fersiwn Saesneg y ddogfen hon a'r fersiwn Gymraeg, y fersiwn Saesneg fydd drechaf.

GOROLWG I GYFLOGEION A CHWSMERIAID AR GYNNIG DIWYGIEDIG SEVERN TRENT AM GRŴP DYFFRYN DYFRDWEY

If you would like an English language version of this document, please go to the Dee Valley Water Offer pages at severntrent.com




Ynghylch Severn Trent

Mae ein oddeutu 5.100 cyflogai yn darparu dŵr a dŵr gwastraff i 4.3 miliwn cartref yng Nghanolbarth Cymru a Chanolbarth Lloegr.

Mae bron pob person sy'n gweithio i ni yn gwsmer hefyd, felly mae 'na deimlad agos atoch ynghylch y cwmni.

Ein gweledigaeth yw i fod y cwmni dŵr yr ymddiriedir ynddo fwyaf erbyn 2020 a dyna pam y mae ein cwsmeriaid yn greiddiol i'n strategaeth. Rydym felly yn falch:

- Fod gennym y biliau cyfun dŵr a dŵr gwastraff isaf ar gyfartaledd ym Mhrydain. Mae'n golygu fod ein cwmeriaid ar gyfartaledd yn talu llai na £1 y dydd am eu holl wasanaethau dŵr glân a dŵr gwastraff.
- Fod adroddiad diweddar gan y Cyngor Defnyddwyr Dŵr yn dangos taw ni yw'r cwmni dŵr a dŵr gwastraff ail orau o ran delio â chwynion cwsmeriaid.
- Y cadarnhaodd Ofwat yn mis Hydref 2016 eu bod yn dyfarnu tâl sylweddol i ni am ein perfformiad arbennig o ran materion y mae ein cwmeriaid yn dweud wrthym sydd o'r pwys mwyaf iddyn nhw. Roedd rheini yn cynnwys lleihau gorlifo mewn carthffosydd, lleihau gollwng dŵr a gostwng llygredd.
- Ein bod yn helpu ein cwsmeriaid sydd fwyaf angen help. Rydym yn falch fod gennym sawl dull o helpu pobl sy'n cael trafferth i dalu biliau, gan gynnwys gostyngiad o hyd at 90%.



Rydym wedi treblu nifer y cwsmeriaid a gefnogwyd y llynedd ac wedi helpu dros 36,000 cwsmer i leihau eu biliau.

- Ein bod wedi ymrwymo i fuddsoddi swm sy'n cyfateb i £700 ar gyfer pob cartref a busnes yn ein ardal rhwng 2015 a 2020. Mae hyn yn ein helpu i adnewyddu peipiau, cronfeydd a gweithfeydd trin dŵr er mwyn sicrhau ein bod yn darparu'r gwasanaeth cwsmeriaid gorau yn feunyddiol.
- Ein bod yn cynhyrchu 35% o'n anghenion ynni trwy ffynonellau adnewyddol ac wedi ymrwymo i gynyddu hynny i 50% erbyn 2020.
- Y dyfarnwyd i ni safon uchaf 4 seren Asiantaeth yr Amgylchedd am ein arweinyddiaeth ym maes amgylchedd ac am ein perfformiad tu hwnt o dda.
- Y cawn ein cydnabod fel cyflogwr da fel y dengys y gwobrau a enillasom yn ddiweddar.



Gorolwg o'r cynnig i gyflogeion

Rydym yn gwir werthfawrogi sgiliau, arbenigedd gweithredu a thechnegol pawb yn Dyffryn Dyfrdwy. Gallwn weld fod cyflogeion Dyffryn Dyfrdwy yn frwdfrydig ynghylch y busnes a rydym am adeiladu ar hynny.

Bydd fe fydd rhai pethau yn newid, ond beth na fydd yn newid, fydd ein ymroddiad i drin pob gweithiwr gyda pharch a gonestrwydd wrth i ni gyfuno ein dau fusnes. Yn ein cynnig dywedasom y byddwn yn:

- Parhau i weithredu o ganolfannau presennol Dyffryn Dyfrdwy yn Wrecsam a Chaer.
- Amddiffyn y gweithlu blaen y maes. Dyna fwyaf y swyddi yn Dyffryn Dyfrdwy. Maent yn cynnwys gweithrediadau, rheolaeth weithredol, cynnal a chadw ac adeiladu'r isadeiledd a'r gweithfeydd trin dŵr.
- Cyfannu sgiliau peirianyddol, rheoli asedion a rheoli rhaglenni Dyffryn Dyfrdwy gyda'r grŵp ehangach. Gweithio gyda chyflogeion lleol yw'r ffordd orau o wneud hyn.
- Gweithio gyda thîm canolfan cyswllt cwsmeriaid Dyffryn Dyfrdwy er mwyn sicrhau fod y pwyslais ar gwsmeriaid lleol a sgiliau ac arbenigedd gweithwyr lleol yn cael eu diogelu lle bynnag y bo modd, tra'n manteisio â'r ddoniau y grwp unedig.
- Anrhydeddu termau ac amodau gwaith, a hawliau cyflogaeth (gan gynnwys hawliau'n gysylltiedig â phensiynau) holl gyflogeion Dyffryn Dyfrdwy. Golyga hyn anrhydeddu cynllun bonws 2016/2017 gweithwyr Dyffryn Dyfrdwy. Mae Severn Trent yn credu'n gryf iawn mewn creu diwylliant lle mae pawb ar eu hennill a lle yr ysgogir gweithwyr i ddarparu'r canlyniadau gorau i gwsmeriaid.
- Anrhydeddu polisiau Severn Trent a Dyffryn Dyfrdwy lle mae pawb nad ydynt ar raddfa cyflog hyfforddi yn derbyn o leiaf y Cyflog Byw.
- Buddsoddi mewn sgiliau a gyrfaedd. Ymfalchiwn ein bod yn datblygu gyrfaedd ac yn rhoi cyfle i bobl ddisgleirio. Bwriadwn ehangu ein rhaglen graddedigion cydnabyddedig a'n cynlluniau prentisiad ar draws ardal Dyffryn Dyfrdwy.
- Rhoi technoleg newydd i gyflogeion – yn arbennig pan maen nhw allan yn y maes, er mwyn gwella profiad y cwsmer a'r gweithiwr.
- Lledaenu ein agwedd arobryn tuag at lechyd, Diogelwch a Hunanofal ar draws busnes Dyffryn Dyfrdwy.
- Adolygu sut orau i gyfannu gwasanaethau rheoli, gweinyddu a chefnogi Dyffryn Dyfrdwy. Tra ein bod yn credu bod elfen o ddyblygu o fewn y swyddi hyn a fydd yn golygu lleihau niferoedd a/neu newid mewn lleoliad gwaith byddwn yn cynnig cyfle i bawb ymgeisio am gyfloedd gyrfa ar draws grwp ehaŵgach Severn Trent. Mae gennym tua 5.100 yn gweithio i ni felly mae cyfleon yn codi yn gyson. Er enghraifft mae swyddi gwag yn bod yn barod yn ein canolfan yn Amwythig.